# Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru ar gyfer gweision y Goron a gweithwyr y British Council

Y Comisiwn Etholiadol

## Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu os na allwch fwrw eich pleidlais yn bersonol, gallwch gael rhywun yr ydych yn ymddiried ynddo i fwrw eich pleidlais drosoch.

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy os ydych wedi cofrestru i bleidleisio, neu wedi gwneud cais i gael eich cofrestru, fel gwas y Goron, cyflogai'r British Council neu briod neu bartner sifil i rywun sydd wedi'i gofrestru.

Dim ond yng Nghymru y mae'r ffurflen hon yn berthnasol.

I bleidleisio drwy ddirprwy, rhaid i chi a'ch dirprwy fod wedi eich cofrestru ac yn gymwys i bleidleisio.

Mae'r rheolau ynghylch pwy all fod yn ddirprwy yn wahanol yn dibynnu ar y math o etholiad yr ydych am bleidleisio ynddo:

**Yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol:**

- Gall dirprwy bleidleisio dros berthnasau agos a hyd at ddau berson arall mewn etholiad. Priod, partner sifil, rhiant, nain/mam-gu neu daid/tad-cu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres yw perthnasau agos yr ymgeisydd.

**Yn etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu:**

- Gall dirprwy bleidleisio dros uchafswm o 4 o bobl. Ni all mwy na 2 o'r bobl hynny fod yn etholwyr domestig. Mae etholwyr domestig yn bleidleiswyr nad ydynt yn bleidleiswyr tramor nac yn bleidleiswyr gwasanaeth. Mae etholiadau Senedd y DU yn cynnwys etholiadau cyffredinol Senedd y DU, is-etholiadau, a deisebau adalw.

I gael rhagor o wybodaeth am bleidleisio drwy ddirprwy a ffyrdd eraill o wneud cais, ewch i **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

## Sut mae gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy?

- Gofynnwch i rywun sy'n fodlon ac yn gallu bod yn ddirprwy i chi a phleidleisio ar eich rhan.
- Llenwch y ffurflen gais am bleidlais drwy ddirprwy. Sicrhewch fod pob adran ofynnol o'r ffurflen wedi'i chwblhau a rhowch eich dyddiad geni a'ch llofnod. Mae angen yr wybodaeth hon i atal twyll. Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.
- Os oes gwybodaeth ar goll neu anghywir yn eich cais, bydd eich swyddfa cofrestru etholiadol leol yn cysylltu â chi. Efallai y bydd angen i chi ddarparu dogfennau ategol ac efallai y bydd yn cymryd mwy o amser i brosesu eich cais.
- **Dylech ddychwelyd eich ffurflen i'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.** Gallwch ddod o hyd i'w manylion a rhagor o wybodaeth yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

**Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol.**

Wrth wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy newydd, rhaid i chi ddychwelyd eich ffurflen gais erbyn **5pm, 6 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.**

Wrth newid neu ganslo pleidlais drwy'r post, drwy ddirprwy neu bleidlais bost drwy ddirprwy, rhaid i chi ddychwelyd eich ffurflen gais erbyn **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.**

Os nad ydych eisoes wedi cofrestru i bleidleisio, rhaid i chi wneud cais i gofrestru cyn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yw **hanner nos, 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.** Cofrestrwch i bleidleisio ar-lein yn **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.**

# Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru ar gyfer gweision y Goron a gweithwyr y British Council

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Bydd eich swyddfa cofrestru etholiadol leol yn cadarnhau a yw eich cais wedi'i dderbyn neu ei wrthod.
- Anfonir cerdyn pleidleisio dirprwy at eich dirprwy, yn dweud wrthynt ble a phryd i bleidleisio ar eich rhan.
- Rhaid i chi ddweud wrth eich dirprwy sut yr ydych am iddynt bleidleisio ar eich rhan, er enghraifft, pa ymgeisydd, plaid, neu ganlyniad.
- Rhaid i'ch dirprwy fynd i'ch gorsaf bleidleisio leol i bleidleisio ar eich rhan. Os na all eich dirprwy gyrraedd yr orsaf bleidleisio, gallant wneud cais i bleidleisio ar eich rhan drwy'r post. Gallant wneud cais i wneud hyn hyd nes **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.** Gallant gysylltu â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol am ragor o fanylion ac i ofyn am ffurflen gais am bleidlais bost. I gael manylion cyswllt, ewch i **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**
- Os gallwch fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, gallwch bleidleisio'n bersonol ar yr amod nad yw eich dirprwy wedi gwneud hynny eisoes neu nad yw wedi gwneud cais i bleidleisio ar eich rhan drwy'r post.

## Datganiad preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybod i chi beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth bersonol a rowch ar y ffurflen gais hon.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd Data at ddibenion deddfwriaeth diogelu data. Eu sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth bersonol yw bod y prosesu'n hanfodol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol brosesu eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. I gael rhagor o wybodaeth dylech gyfeirio at eu hysbysiad preifatrwydd. Gallwch ddod o hyd i'w gwefan a'u manylion cyswllt yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

# Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru ar gyfer gweision y Goron a gweithwyr y British Council

## Dim ond un person all wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy gan ddefnyddio'r ffurflen hon

Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU. Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen, anfonwch hi i'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol. Gallwch ddod o hyd i'w cyfeiriad yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

## 1 Amdanoch chi

Cyfenw

Enw(au) cyntaf (yn llawn)

Eich cyfeiriad (lle rydych wedi cofrestru i bleidleisio)

Cod post

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

**Mae darparu e-bost a rhif ffôn yn ffordd gyflym a hawdd o gysylltu â chi am eich cais.**

## 2 Ar gyfer pa fath o etholiadau ydych chi eisiau pleidlais drwy ddirprwy?

Rwyf eisiau pleidlais drwy ddirprwy ar gyfer (ticiwch unrhyw flychau sy'n berthnasol isod):

- ☐ etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol
- ☐ etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Os ydych yn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol, llenwch **adran 2A.**

Os ydych yn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, llenwch **adran 2B.**

Os ydych yn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer pob etholiad, llenwch **adrannau 2A a 2B.**

**Mae'r rheolau ynghylch pwy all weithredu fel eich dirprwy yn wahanol yn dibynnu ar y math o etholiad yr ydych am bleidleisio ynddo. Sicrhewch eich bod wedi darllen y nodiadau ar dudalen 1 cyn llenwi gweddill y ffurflen hon.**

Pan fyddwch wedi cwblhau'r adrannau perthnasol, ewch ymlaen i adran 3.

## 2A Pleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol

### Pwy ydych chi eisiau bod yn ddirprwy i chi?

Enw llawn

Perthynas deuluol (os o gwbl)

Cyfeiriad llawn

Cod post

E-bost neu rhif ffôn (dewisol)

### Am ba mor hir ydych chi eisiau pleidlais drwy ddirprwy?

Rwyf am bleidleisio drwy ddirprwy (ticiwch un blwch yn unig):

- ☐ hyd nes y ceir rhybudd pellach (pleidlais drwy ddirprwy parhaol)
- ☐ ar gyfer etholiadau'r Senedd/etholiadau cynghorau lleol a gynhelir ar

  D D / M M / B B B B

- ☐ ar gyfer y cyfnod

  rhwng D D / M M / B B B B

  a D D / M M / B B B B

# Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru ar gyfer gweision y Goron a gweithwyr y British Council

## 2B Pleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

### Eich rhif Yswiriant Gwladol

Nodwch eich rhif Yswiriant Gwladol isod. Gallwch ddod o hyd iddo ar eich slip cyflog, P60, neu ar lythyrau am dreth, pensiynau neu fudd-daliadau.

Os na allwch ddarparu rhif Yswiriant Gwladol, dywedwch pam wrthym. Gallwch barhau i gyflwyno'r ffurflen hon a bydd rhywun yn cysylltu â chi. Gall gymryd yn hirach i brosesu eich cais.

### Pwy ydych chi eisiau bod yn ddirprwy i chi?

Enw llawn

Cyfeiriad llawn

Cod post

E-bost neu rhif ffôn (dewisol)

### Am ba mor hir ydych chi eisiau pleidlais drwy ddirprwy?

Rwyf am bleidleisio drwy ddirprwy (ticiwch un blwch yn unig):

- ☐ hyd nes y ceir rhybudd pellach (pleidlais drwy ddirprwy parhaol)
- ☐ ar gyfer etholiadau Senedd y DU/Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a gynhelir ar

  D D M M B B B B
- ☐ ar gyfer y cyfnod

  rhwng D D M M B B B B

  a D D M M B B B B

## 3 Eich dyddiad geni a'ch datganiad

**Datganiad:** Rwyf wedi gofyn i'r person(au) yr wyf wedi'u henwi fel fy nirprwy ac yn cadarnhau eu bod yn fodlon ac yn gallu cael eu penodi i bleidleisio ar fy rhan.

Hyd y gwn i, mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir. Rwy'n deall bod darparu gwybodaeth ffug ar y ffurflen hon yn drosedd, a gellir ei chosbi ar gollfarn drwy garchar am hyd at chew mis a/neu ddirwy.

**Dyddiad geni:** Nodwch eich dyddiad geni yn y blychau isod gan ddefnyddio inc du.

D D M M B B B B

**Llofnod:** Llofnodwch isod gan ddefnyddio inc du, gan gadw o fewn y ffin lwyd.

Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.

## 4 Dyddiad y cais

Dyddiad heddiw D D M M B B B B